

JESSICA DUNROD

ETIFEDDIAETH

Wedi'i geni yng Nghaerdydd, cafodd Jessica Dunrod ei magu i fod yn falch o'i gwreiddiau Caribïaidd.

Sicrhaodd ei thad a'i neiniau a theidiau o St Catherine, Jamaica, fod eu plant yn deall eu hetifeddiaeth a'u hunaniaeth.

Y tu mewn i'r cartref roedd diwylliant, iaith a balchder Caribïaidd yn fyw ac yn ganolog i'w magwraeth.

CYMRU YW...

SUN BALCH GWYLLT

Nid oedd Cymru'n teimlo fel ei lle hi tan ei hugeiniau cynnar.

Ar ôl y mudiad George Floyd, dywedodd: "Os nad oedd neb yn mynd i ddiffinio hunaniaeth Ddu Gymreig i mi, yna roedd rhaid i mi hawlio un fy hun."

Dysgodd yn hwyrach nad oedd ei nodweddion naturiol yn broblem, daeth gwisgo ei gwallt naturiol yn addewid i gynrychioli'r hunaniaeth honno'n agored.

LLENYDDIAETH AC ARTISTIAETH



CYFRANIAD

Mae Jessica yn ysgrifennu llyfrau plant sy'n ail-lunio sut mae darllenwyr ifanc yn deall Cymru a'u hunain.

Fe'i cydnabyddir fel yr awdur a'r cyhoeddwr llyfrau plant Du cyntaf a anwyd yng Nghymru.

Mae ei llyfr am y chwedl rygbi Billy Boston yn sicrhau y caiff arwr chwaraeon Du o Gymru ei gofio.

Mae Your Hair Is Your Crown yn annog balchder mewn gwallt naturiol ac mewn hunaniaeth.

Mae hi'n ysgrifennu fel nad oes rhaid i blant "ddad-ddysgu" y poen y bu'n rhaid iddi hi ddioddef.

CRYFDERAU A LLAWENYDD

Mae gan Jessica reddf gref ar gyfer iaith a dweud stori.

Mae ymweliadau ag ysgolion - pan fo plant yn ymateb gyda chwilfrydedd ac ymddiriedaeth, yn dod â'r llawenydd mwyaf iddi.

“

DOEDD DIM DISGWYL I TI FFITIO I MEWN ERIOD - I MEWN I BETH, YN UNION? ”